

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn ar **11 Rhagfyr 2023** am 6.30 pm.

YN BRESENNOL:- Cyng. Gareth Parry (Cadeirydd), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. John Wyn Jones, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. L. Toth.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos F. Jones, (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig) a Sioned Jones (Cyfieithydd).

82/23 YMDDIHEURIADAU: Cyng. Elin Walker Jones Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Mark Roberts, Cyng. John Wyn Williams.

83/23 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Datganodd y Cyng. John Wyn Jones ddiddordeb yn eitem 90/23 isod oherwydd ei fod yn un o ymddiriedolwyr Canolfan Gymunedol Glanadda.

84/23 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim

85/23 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Dosbarthwyd yr Adroddiad cyn y cyfarfod.

Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig wedi'i gylchredeg ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Cadarnhaodd adroddiad y Cyfarwyddwr fod dau ymgeisydd bellach â diddordeb yn sedd wag Menai. Gwahoddir y ddau i fynychu'r cyfarfod nesaf, lle bydd y Cyngor yn mynd drwy ei broses gyfethol i gyfethol un o'r ymgeiswyr. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod cyfarfod rhwng y Gadeirlan a Swyddogion Cyngor Gwynedd, a gynhaliwyd yn gynharach yn y dydd yn swyddfeydd Cyngor y Ddinas wedi mynd yn gymharol dda a bod fframwaith posibl, yn ogystal â chyllid posibl, ar gyfer y Gerddi Beiblaidd, yr ardal o amgylch gorsaf yr Heddlu ac ar gyfer ardal Tan y Fynwent wedi'i adnabod. Roedd materion i'w datrys o hyd ond roedd Cyngor y Ddinas yn gweithio gyda phob parti i symud y mater yn ei flaen. Holwyd y Cyfarwyddwr Dinesig ar un neu ddwy eitem yn yr adroddiad, gan gynnwys statws Toiledau Cyhoeddus y Garth a Gerddi Garth, a chafwyd eglurhad gan y Cyfarwyddwr.

PENDERFYNWYD: Derbyn Adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig.

86/23 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 6ed TACHWEDD 2023

Cafodd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd eu dosbarthu ymlaen llaw i'r Cynghorwyr.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

87/23 DERBYN ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR CYLLID

Adroddodd y Cadeirydd Cyllid ar drafodaethau ac argymhellion dau gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cyllid. Adroddwyd fod y rhan fwyaf o'r materion pwysig ar y rhaglen hon i'w cymeradwyo gan y Cyngor, yn cynnwys y rhestrau taliadau, adroddiadau ariannol, dau gais am grant a dadansoddiad o gostau'r Wyl Haf. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Cyngor y byddai'n rhoi gwybod iddo am argymhellion y Pwyllgor wrth i bob eitem gael ei chodi.

PENDERFYNWYD: derbyn adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

88/23 DERBYN YR ADRODDIADAU ARIANNOL

i) ADRODDIAD Y GYLLIDEB 3 MIS YN ERBYN GWARIANT GWIRIONEDDOL

Roedd yr adroddiad cyllideb wedi'i gylchredeg ymlaen llaw i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

Hysbyswyd y Cyngor bod yr adroddiad wedi'i ddadansoddi gan y Pwyllgor Cyllid a'i fod yn argymhell cymeradwyo. Yn dilyn trafodaeth fer

PENDERFYNWYD: derbyn Adroddiad y Gyllideb 3 Mis yn erbyn y Gwariant Gwirioneddol.

ii) ADRODDIAD CYLLIDEB 6 MIS YN ERBYN GWARIANT GWIRIONEDDOL

Roedd yr adroddiad cyllideb wedi'i gylchredeg ymlaen llaw i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

Hysbyswyd y Cyngor bod yr adroddiad wedi'i ddadansoddi gan y Pwyllgor Cyllid a'i fod yn argymhell cymeradwyo. Yn dilyn trafodaeth fer

PENDERFYNWYD: derbyn y Gyllideb 6 Mis yn erbyn y Gwariant Gwirioneddol.

89/23 CYMERADWYO LWFANSAU AELODAU AR GYFER 2023 – 2024.

Anfonwyd Crynodeb o Adroddiad Blynyddol Cyngor Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol (IRPW) ymlaen llaw i'r Aelodau.

Yn dilyn crynodeb byr gan y Cyfarwyddwr Dinesig, trafodwyd argymhellion diweddaraf yr IRPW gan y Cyngor. Atgoffwyd y Cyngorwyr os oes angen i unrhyw un ohonynt dalu am warchodwr plant neu ofalwr i hwyluso eu presenoldeb ar fusnes y Cyngor neu gyfarfod o'r Cyngor, yna, ar ôl cyflwyno derbynneb, bydd cost o'r fath yn cael ei ad-dalu.

PENDERFYNWYD :

- i) mabwysiadu'r gyfradd sefydlog o dreuliau Cyngorwyr, sef £52 y flwyddyn.
- ii) Gofyn i'r holl Gynghorwyr lofnodi'r llythyr templed a ddarparwyd gan yr IRPW yn cadarnhau bod Cynghorydd yn gweithio o gartref.
- iii) Cynnal lwfans y Maer a'r Dirprwy Faer ar yr un gyfradd â blynyddoedd blaenorol, h.y. £1,500 a £400 yn y drefn honno.

90/23 GWERTHUSO CAIS AM GRANT GAN GANOLFAN GYMUNEDOL GLANADDA.

Roedd manylion y dogfennau cais am grant wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau.

Roedd y Cyngor wedi derbyn cais am gymorth ariannol gan Ganolfan Gymunedol Glanadda i gynorthwyo i adnewyddu'r adeilad fel bod y gymuned yn gallu parhau i'w defnyddio. Roedd y cais yn manylu ar nifer o fentrau gyda chostau amrywiol. Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Pwyllgor Cyllid wedi gwerthuso'r cais ac wedi argymhell grant o £10,000.

PENDERFYNWYD : dyfarnu grant o £10,000 i Ganolfan Gymunedol Glanadda.

91/23 GWERTHUSO CAIS AM GRANT GAN FENTER CELFYDDYDAU BANGOR.

Roedd manylion y dogfennau cais am grant wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau.

Adroddwyd y derbyniwyd cais am gefnogaeth ariannol gan Fenter Celfyddydau Bangor, i gynorthwyo gyda chyllido gweithdai celf a gorymdaith lusernau yn y Ddinas. Roedd y cais wedi cael ei asesu gan y Pwyllgor Cyllid, a gododd rai cwestiynau gweinyddol oedd heb eu hateb. Felly, o ystyried cyllideb gyfyngedig y Cyngor ar gyfer grantiau a bod y fenter hon wedi'i chefnogi yn y blynyddoedd blaenorol, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid wrthod y cais.

PENDERFYNWYD: dyfarnu grant o £1,000 i'r Fenter a gofyn i'r cais gael ei gyflwyno'n gynt yn y dyfodol er mwyn caniatáu mwy o amser i unrhyw ymholiadau gael eu datrys.

92/23 DIWEDDARIAD AR Y GRANT TRAWSNEWID TREFI.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod cais y Cyngor am Grant Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus. Bydd angen gwario'r grant i wella delwedd weledol y Stryd Fawr erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Roedd Cyngor y Ddinas wedi dyrannu £30,000 i'r prosiect hwn ac wedi cael cyngor, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl o £100,000 gan Lywodraeth Cymru, y byddai angen dod o hyd i £10,000 ychwanegol. Fodd bynnag, adroddwyd ymhellach bod Bangor yn Gyntaf (BID Bangor gynt) wedi cynnig cyfrannu'r (hyd at) £10,000 ychwanegol hwn i sicrhau cael y buddion mwyaf posibl o'r prosiect.

PENDERFYNWYD: derbyn cynnig Bangor yn Gyntaf i gyfrannu at arian cyfatebol ar gyfer y prosiect hwn a'u cynnwys yn y cyhoeddusrwydd.

93/23 ADOLYGU COSTAU'R WŶYL HAF YN ERBYN GRANT .

Roedd dadansoddiad o Gostau'r Wyl Haf wedi'i gylchredeg ymlaen llaw gyda phapurau'r cyfarfod.

Yn unol ag amod y Cyngor wrth roi cyllid i'r Wyl Haf, darparwyd dadansoddiad llawn o gostau'r Wyl i'r Cyngor. Roedd yn manylu ar yr arian a godwyd o geisiadau grant ac yn manylu ar yr holl dreuliau (ac eithrio amser staff) oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Rhwng popeth, costiodd y digwyddiad £11,693.85 i Gyngor y Ddinas.

PENDERFYNWYD: derbyn yr adroddiad.

94/23 CYNNIG I DDYFARNU ANRHYDEDD DINESIG I HYWEL WILLIAMS.

Derbyniwyd cynnig i gydnabod cyfraniad helaeth Mr Hywel Williams AS i'r gymuned leol. Mae Mr Williams yn bwriadu ymddiswyddo fel yr Aelod Seneddol Lleol yn 2024 ac ymddeol o wleidyddiaeth. Hysbyswyd y Cyngor hefyd o'r blynyddoedd lawer o waith cymunedol a wnaed gan Hywel Williams y tu allan i'r byd gwleidyddol.

PENDERFYNWYD: rhoi Rhyddfraint y Ddinas i Mr Williams AS.

95/23 DERBYN Y RHESTRAU TALU AR GYFER MEDI, HYDREF A THACHWEDD 2023.

Roedd y rhestrau taliadau ar gyfer Medi, Hydref a Thachwedd wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau.

Hysbyswyd y Cyngor bod y Pwyllgor Cyllid wedi craffu ar y rhestrau taliadau a bod y pwyllgor hwn yn argymhell eu derbyn.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo'r rhestr taliadau ar gyfer Medi, Hydref a Thachwedd.

95/23 CEISIADAU CYNLLUNIO.

- i. C23/0919/11/DT Cais i newid rhan unllawr yr adeilad ac adeiladu porth a man parcio yn Rhodfa Belmont, Bangor.

Dim gwrthwynebiad

- ii. C23/0949/11/HY Cais i uwchraddio arwydd goleuedig ar flaen yr adeilad.

Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR